

Un Noson Dywyll

Un noson dywyll fel y fagddu, yn nyfnder gaeaf, roedd Tomos Wiliam, ceidwad tollborth Pont-y-glyn, yn Sir Benfro, yn pendwmpian wrth y tân. Dyn byr, llydan, â barf ddu, drwchus yn cuddio mwy na hanner ei wyneb ydoedd.

Roedd hi wedi mynd yn hwyr a'r tân wedi llosgi'n isel, ac roedd ceidwad y tollborth ar fin mynd i'w wely, gan gredu na ddeuai'r un teithiwr arall i ofyn am fynd trwy'r glwyd ar y fath noson stormus. Roedd y Mêl wedi mynd trwodd ers awr a rhagor a gwyddai na ddeuai Coets Hwlffordd tan chwech o'r gloch fore trannoeth. Eisteddodd yno am dipyn wedyn yn gwrando ar sŵn y gwynt yn y coed mawr o gwmpas ei fwthyn. Oedd, roedd hi'n noson ofnadwy allan, gyda melt a tharanau, a'r glaw yn pistyllu i lawr yn ddirugaredd. Dechreuodd Tomos Wiliam chwalu meddyliau. Doedd e ddim yn hoffi'r gwaith o ofalu am y tollborth. Ddwy flynedd yn ôl roedd e wedi claddu ei wraig ac yn awr dim ond ef a'i ferch, Gwen oedd yn byw yn y bwthyn bach ar fin y ffordd fawr. Roedd Gwen yn ddwy ar bymtheg oed ac yn tyfu'n ferch hardd a lluniaidd fel ei mam. Ni allai Tomos Wiliam feddwl beth a wnâi hebddi, oherwydd roedd yr eneth yn gwmni ac yn gysur mawr iddo. On der fod ganddo'i ferch yn gwmni, fe deimlai'n unig iawn weithiau. Prin iawn oedd cyfeillion ceidwad y tollborth, meddyliodd. Teimlai pawb bron yn ddig wrtho am ei fod yn gorfodi iddyn nhw dalu am fynd trwy'r gât. Yn wir, fe deimlai pobl y wlad yn chwerw iawn tuag at y tollbyrth aml ar hyd yr hewlydd, gan na allen nhw fforddio talu'r tollau trwm o hyd ac o hyd. Roedd cymaint o dlodi yn y wlad yn y blynyddoedd hynny fel bod rhaid edrych yn llygad pob ceiniog goch.

Neidiodd fflam sydyn yn y grat a diffodd wedyn, gan adael dim ond marwor coch. Cododd Tomos Wiliam ar ei draed a rhwbiodd ei lygaidd. Roedd ar fin diffodd y golau a throi i'r 'cae nos', pan glywodd sŵn carnau ceffyl ar y ffordd tu allan, ac yna gwaedd fawr uwchlaw sŵn y storm.

'Gate!'

Cydiodd yn y lantarn oddi ar y bwrdd. Roedd y gannwyll dew ynddi wedi llosgi i'r gwaelod bron. Doedd dim amser i roi cannyll newydd ynddi, meddyliodd. Yna dyma'r llais o'r tu allan yn gweiddi eto, *'Gate!'* – yn fwy di-amynedd y tro hwn.

'Pwy all fod am fynd trwodd ar y fath noson, dwedwch?' meddai wrtho'i hun, *'a beth yw'r brys sy arno?'* Taflodd gerpyn o hen got dros ei war ac agor y drws i fynd allan. Cyn gynted ag y rhoddodd gam dros y trothwy daeth pwff sydyn o wynt a diffodd y gannwyll yn y lantarn.

'Paid hidio am y golau, does dim o'i angen e!' gwaeddodd llais o'r tywyllwch. Aeth Tomos Wiliam allan i'r ffordd; cydiodd y gwynt yn ei hen got a bu bron â'i chipio oddi ar ei ysgwyddau.

Aeth yn nes at y marchog. Er nad oedd yn ddyn ofnus fe gurai ei galon dipyn bach yn gyflymach, oherwydd fe wyddai ef cystal â neb fod yna bob math o ddihirod yn teithio'r

ffordd fawr yn hwyr y nos. Yn yr ychydig bach o olau a ddeuai trwy ffenest fechan ei fwthyn gallai weld siâp ceffyl mawr â dyn mewn clogyn tywyll yn eistedd arno.

‘Mi agora i’r glwyd, syr...’ meddai Tomos Wiliam.

‘Na, aros!’ gwaeddodd y marchog. Safodd Tomos Wiliam yn stond ar ganol y ffordd gan ddal ei anadl. Yn awr roedd yn ofni’r gwaethaf – roedd hwn ar ryw berwyl drwg. Cydiodd yn dynnach yn y lantarn yn ei law, gan feddwl ei defnyddio fel arf pe bai angen.

‘Oes rhywun wedi mynd trwy’r glwyd yma yn ystod yr hanner awr diwethaf?’ gofynnodd y dyn ar gefn y ceffyl mawr. Sylwodd Tomos Wiliam ei fod yn siarad ag acen ddieithr. Beth alle fe fod?

‘Nagoes, syr,’ meddai Tomos Wiliam, ‘does neb wedi mynd trwodd, ond y Mêl, ers yn agos i ddwy awr, a does dim rhyfedd – ar y fath noson.’

Plygodd y marchog dros war ei geffyl.

‘Wyt ti’n siŵr? Falle dy fod ti’n sygu? Fe fu rhaid i mi weiddi ddwy waith cyn i ti nghlywed i.’

‘Mae’n noson stormus, syr, ac mae’r gwynt yn ceisio boddi pob llais ond’i lais ’i hunan heno. Ond coeliwch chi fi, syr, does neb wedi mynd trwy’r tollborth heb yn wybod i mi.’

‘Rwy’n dy gredu di. Rwy’ti’n swnio’n ddyn gonest,’ meddai’r marchog.

‘Diolch syr,’ meddai Tomos Wiliam, gan synnu braidd at ei eiriau; ‘mi agora i’r glwyd i chi gael mynd ar eich taith. Gobeithio nad oes gynnoch chi ddim taith bell o’ch blaen ar y fath noson.’

‘Na, aros!’

Unwaith eto teimlodd Tomos Wiliam rhyw ias yn ei gerdded. Pwy oedd y dyn yma oedd wedi gweiddi ‘*Gate*’ mor ddiamynedd? Doedd dim brys arno nawr i fynd trwodd.

‘Ie, syr?’ meddai.

‘Rwy i mewn tipyn o berygl,’ meddai’r marchog, ‘ac fe hoffwn i ti wneud cymwynas â fi...’

‘Cymwynas, syr? Ond...’

Ar y foment honno fflachiodd mellten ar draws yr awyr, ac am eiliad gwelodd Tomos Wiliam y marchog dieithr yn glir. Gŵr ifanc ydoedd a’i wyneb fel y galchen o wyn dan ei het ddu, a oedd yn driplan glaw. Yna roedd y tywyllwch wedi syrthio rhyngddyn nhw drachefn...